

# CA2 - Blwyddyn 5 a 6


## Côt Law Siôn Corn





| Deunydd | Hyd y prawf | Cyfaint dŵr |
|---|---|---|
| Denim | 1m | 6 ml |
| Cotwm | 1m | 48 ml |
| Gwlan | 1m | 38 ml |
| Polyester | 1m | 0 ml |
| Papur | 1m | 42 ml |







## Y Dasg

Cynnal ymholiad **Prawf Teg**, gyda sampl o ddefnyddiau gwahanol, i weld pa un yw'r mwyaf gwrth-ddŵr i greu côt law i Siôn Corn. Byddwn yn tywallt dŵr dros y samplau a mesur faint o ddŵr aiff drwy'r defnydd. Byddwn yn defnyddio biceri ac offer mesur gwyddonol. Byddwn yn rhagfynegi canlyniad a'i wiro yn erbyn y dystiolaeth. Yna, cofnodi'r data ar JiT5 ar ffurf graff bar i ddod â'r elfen ddigidol TGCh i'r gwaith.

**Cam Cynnydd 3 Gwyddoniaeth:-** Rwy'n gallu nodi cwestiynau y mae modd eu hymchwilio'n wyddonol, a gallu awgrymu dulliau ymholi addas.
Rwy'n gallu awgrymu canlyniadau ar sail fy ngwaith ymchwil.
Rwy'n gallu gwerthuso dulliau er mwyn awgrymu gwelliannau.
Rwy'n dechrau esbonio pwysigrwydd data cywir a dibynadwy er mwyn sicrhau canlyniad
**Cam Cynnydd 3 TGCh:-** Rwy'n gallu storio a thrin data yn effeithiol er mwyn cynhyrchu a dangos gwybodaeth ddefnyddiol yn weledol.









Karen MacIntyre Huws 2021